THE TRUST FOR WELSH
ARCHAEOLOGY
YMDDIRIEDOLAETH
ARCHAEOLEGOL CYMRU

Corner House
6 Carmarthen Street
Llandeilo
Carmarthenshire
SA19 6AE

Ty Cornel
6 Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AE

# COD YMDDYGIAD
# AR GYFER GWIRFODDOLWYR

**Cod Ymddygiad Ar Gyfer Gwirfoddolwyr**

Mae Heneb yn cydnabod bod gwirfoddoli'n arwain at fanteision aruthrol i'r gwirfoddolwr ac i'n cwmni. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau y gall pob cyfranogwr gael y budd mwyaf o'i gyfnod gyda ni, rydym yn disgwyl i bob gwirfoddolwr lynu wrth ein Cod Ymddygiad. Mae'r cod hwn yn berthnasol i staff Heneb (mae ei delerau'n rhan o'r llawlyfr staff) ac i'n gwirfoddolwyr, a bwriedir iddo sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn ein digwyddiadau yn gallu gwneud hynny'n ddiogel, heb ddioddef aflonyddu na sylw/ymddygiad digroeso.

Mae'r cod wedi'i rannu'n adrannau er hwylustod. Mae Adran 4 yn nodi'r safonau gofynnol y mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda Heneb lynu wrthynt.

Mae'r cod llawn, gan gynnwys y sancsiynau y gellir eu rhoi i bobl am beidio â glynu wrth y telerau sydd ynddo, i'w weld yn Adrannau 5 a 6 isod.

## Cynnwys


1. Talfyriadau a'r Termau Canlynol ..... 3
2. Datganiad o Fwriad ..... 3
3. Cwmpas y Cod Ymddygiad ar gyfer Gwirfoddolwyr ..... 3
4. Safonau Gofynnol ..... 4
5. Y Cod Ymddygiad Llawn ..... 4
6. Achosion o Dorri'r Cod Ymddygiad: Sancsiynau ac Apeliadau ..... 8
7. Sut i roi Gwybod am Ddigwyddiad yn unol â'r Cod ..... 9

## 1. Talfyriadau a’r Termau Canlynol

Bydd i’r talfyriadau a’r termau canlynol yr ystyron a nodir yn y tabl isod drwy’r polisi cyfan.

| | |
|---|---|
| HDB | Hyrwyddwr Diogelu’r Bwrdd. |
| Y Cod | Y Cod Ymddygiad ar gyfer Gwirfoddolwyr a’r holl gymalau ynddo. |
| ADD a DADD | Yr Arweinydd Diogelu Dynodedig a’r Dirprwy Arweinydd Diogelu Dynodedig |
| Gweithgaredd | Unrhyw weithgaredd neu ddigwyddiad a drefnir gan Heneb. Mae hyn yn cynnwys cloddfeydd cymunedol, gwaith swyddfa, teithiau tywys, darlithoedd a diwrnodau agored, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny. |
| Heneb | Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru a’i holl swyddfeydd, safleoedd a gweithgareddau. |
| TD | Y Tîm Diogelu, sy’n cynnwys Hyrwyddwr Diogelu Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, yr Arweinydd Diogelu Dynodedig a’r Dirprwy Arweinydd Diogelu Dynodedig. |
| Gwirfoddolwr | Unrhyw berson sy’n cymryd rhan mewn gweithgaredd a drefnir gan Heneb, beth bynnag fo natur y cyfranogiad hwnnw. |

## 2. Datganiad o Fwriad

Mae pob gweithgaredd a gynhelir gan Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru yn mynd ati i hybu diogelwch, cysur a mwynhad pawb sy’n bresennol ac sy’n cymryd rhan. Mae’r polisïau sydd gennym ar waith yn berthnasol i'n holl weithgareddau, boed yn rhai ar-lein neu wyneb yn wyneb. Mae'n bosibl y bydd unrhyw rai sy'n torri ein polisïau neu'n peidio â'u dilyn yn wynebu amrywiaeth o ganlyniadau yn sgil eu gweithredoedd neu eu hanweithredoedd.

Ni fydd Heneb yn goddef unrhyw fath o aflonyddu ar unrhyw fynychwr, cyfranogwr neu aelod o staff, nac yn peryglu gweithgaredd oherwydd gweithredoedd unrhyw berson.

Diben y Cod Ymddygiad ar gyfer Gwirfoddolwyr (y Cod) yw nodi’r safonau ymddygiad y disgwylir i’r rhai sy’n gwirfoddoli gyda Heneb eu cyrraedd. Ei nod yw creu lle diogel y bydd pawb yn teimlo’n gyfforddus ynddo. Mae’n nodi’r safonau ymddygiad rydym yn disgwyl i’r rhai sy’n bresennol yn ein gweithgareddau eu cyrraedd, a sut i weithredu pan na chyrhaeddir y safonau hyn. Mae’n ofynnol i bob gwirfoddolwr ddarllen y Cod Ymddygiad hwn, ei lofnodi, a chydymffurfio ag ef.

## 3. Cwmpas y Cod Ymddygiad ar gyfer Gwirfoddolwyr

Mae’r Cod Ymddygiad hwn yn berthnasol i bawb sy’n cymryd rhan mewn digwyddiadau neu weithgareddau a gynhelir gan Heneb, ble bynnag y cânt eu cynnal. Nid oes eithriadau i hyn, ac mae’n cynnwys pobl a all fod â phwysigrwydd, safle, enw da neu statws gwirioneddol neu ymddangosiadol.

Heneb

Mae'r Cod hwn yn diogelu'r holl gyfranogwyr beth bynnag fo'u hoedran; anabledd; ffydd neu gredoau crefyddol; rhywedd; hunaniaeth neu fynegiant rhywedd; cenedligrwydd neu gefndir diwylliannol; niwroamrywiaeth; gallu corfforol; edrychiad neu faint y corff; hil; hunaniaeth neu gyfeiriadedd rhywiol; a/neu statws economaidd-gymdeithasol.

## 4. Safonau Gofynnol

Nodir isod y safonau gofynnol y disgwylir i bob gwirfoddolwr eu cyrraedd. Mae'r rhain yn rhan o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Gwirfoddolwyr llawn a nodir yn (5) isod.
Dylai pob gwirfoddolwr wneud y canlynol:

- Darllen y Cod hwn, ei lofnodi a'i ddilyn bob amser wrth ryngweithio â Heneb.
- Cyflawni ei rôl wirfoddol hyd eithaf ei allu mewn modd diogel, effeithlon a chymwys.
- Parchu'r holl ofynion iechyd a diogelwch a chyfarwyddiadau eraill a roddir gan Heneb a/neu bartneriaid Heneb wrth fod yn bresennol yn nigwyddiadau a gweithgareddau Heneb.
- Parchu'r archaeolegwyr proffesiynol a'r staff arbenigol ar y safle.
- Trin eraill â thegwch, cydraddoldeb, urddas a pharch.
- Cyfathrebu â pharch a gonestrwydd bob amser.
- Deall ei fod yn gyfrifol am gludiant i unrhyw ddigwyddiad ac oddi yno.
- Deall na all staff Heneb dderbyn rhoddion o unrhyw fath.
- Cadw'r holl wybodaeth, gwaith ymchwil neu ddogfennau eraill y daw ar eu traws fel rhan o'i rôl yn gyfrinachol a pheidio â'u datgelu i bobl y tu allan i Heneb.
- Cynnal safon briodol o ran gwisg ar gyfer y digwyddiad neu'r gweithgaredd y bydd yn cymryd rhan ynddo.

## 5. Y Cod Ymddygiad Llawn

Mae'r adran hon yn nodi'r Cod Ymddygiad llawn y dylai pob gwirfoddolwr sy'n bresennol mewn digwyddiadau neu weithgareddau a gynhelir gan Heneb lynu wrtho, ble bynnag y cânt eu cynnal. Bydd pob gwirfoddolwr yn cael copi o'r Cod hwn a bydd disgwyl iddo lofnodi a dychwelyd y ffurflen ar y diwedd i gadarnhau ei fod wedi darllen a derbyn ei delerau.

**Sylwer: Ceidw Heneb yr hawl i gyfyngu ar weithgareddau unrhyw wirfoddolwr nad yw'n llofnodi'r cod hwn, neu ei atal rhag cymryd rhan.** Mae gwybodaeth am y sancsiynau y gellir eu rhoi os na fydd gwirfoddolwyr yn glynu wrth y cod i'w gweld yn (6) isod.

a. <u>Rolau Gwirfoddoli</u>

Bydd pob gwirfoddolwr yn cael sesiwn sefydlu pan fydd yn dechrau gyda Heneb, lle y caiff ei rolau a'i gyfrifoldebau eu hesbonio. Os bydd angen hyfforddiant technegol neu fath arall o hyfforddiant, bydd Heneb

yn sicrhau bod pob gwirfoddolwr yn ei gael ar ddechrau ei gyfnod gyda ni. Ar ôl hynny, cyfrifoldeb y gwirfoddolwr unigol fydd glynu wrth yr holl gyfarwyddiadau a roddir.

Rhaid i chi wneud y canlynol:

- Glynu wrth yr holl gyfarwyddiadau ynglŷn â'ch rôl a roddir i chi gan aelod o staff Heneb neu aelodau eraill o staff proffesiynol/arbenigol mewn digwyddiad
- Rhoi gwybod i staff Heneb ar unwaith os na fyddwch wedi cael yr hyfforddiant perthnasol i gyflawni tasg a roddir i chi
- Rhoi gwybod i Heneb ar y cychwyn cyntaf am unrhyw gyflyrau meddygol neu gorfforol neu gyfyngiadau eraill a all effeithio ar y math o rôl y gallwch ei chyflawni, neu a allai effeithio ar wirfoddolwyr eraill
- Cadw unrhyw wybodaeth neu waith ymchwil a rennir â chi wrth i chi gyflawni rolau gwirfoddoli gyda Heneb yn gyfrinachol
- Glynu wrth unrhyw ofynion cyfreithiol neu reoliadol sy'n berthnasol i'ch rôl yn Heneb

Ni chaniateir i wirfoddolwyr wneud y canlynol:

- Cyflawni unrhyw rôl nad ydynt wedi cael yr hyfforddiant priodol ar ei chyfer.
- Anwybyddu'r cyfarwyddiadau a roddir i chi gan Heneb, partner neu staff arbenigol sy'n ymwneud â digwyddiad neu weithgaredd.
- Peidio â rhoi gwybod i staff Heneb am unrhyw gyflyrau meddygol neu gorfforol neu gyfyngiadau eraill a all effeithio ar y math o rôl y byddwch yn ei chyflawni, neu a all effeithio ar wirfoddolwyr eraill.
- Dosbarthu, cyhoeddi neu ryddhau fel arall wybodaeth y byddwch wedi dod yn ymwybodol ohoni yn ystod eich rôl. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddarganfyddiadau neu safleoedd archaeolegol neu unrhyw wybodaeth arall y gellid ystyried bod iddi werth masnachol, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny.
- Gweithredu yn ystod digwyddiadau neu weithgareddau mewn ffordd a allai ddwyn anfri ar Heneb neu sefydliadau partner.
- Gweithredu mewn ffordd sy'n mynd yn groes i gyfreithiau Cymru a Lloegr.

b. Iechyd a Diogelwch a Chyfarpar Diogelu Personol

Bydd pob gwirfoddolwr yn cael sesiwn friffio ar iechyd a diogelwch ar ddechrau pob digwyddiad a bydd yn ofynnol iddo ddarllen a llofnodi'r asesiad risg cysylltiedig.

Rhaid i wirfoddolwyr hefyd wneud y canlynol:

- Sicrhau y bydd unrhyw gyfarpar diogelu personol a roddir yn cael ei ddefnyddio'n briodol a'i ddychwelyd i staff naill ai'n ddyddiol neu ar ddiwedd unrhyw ddigwyddiad neu weithgaredd, pa un bynnag yw'r cynharaf.
- Glynu wrth yr holl gyfarwyddiadau iechyd a diogelwch a roddir gan staff Heneb neu sefydliad partner.
- Glynu wrth unrhyw gyfarwyddiadau ychwanegol a roddir gan aelodau eraill o staff proffesiynol neu arbenigol

Ni chaniateir i wirfoddolwyr wneud y canlynol:

- Camddefnyddio neu ddifrodi cyfarpar diogelu personol a roddir gan Heneb.

- Peryglu eu hunain, gwirfoddolwyr eraill neu staff drwy anwybyddu cyfarwyddiadau diogelwch.

c. <u>Trin Eraill</u>

Mae Heneb yn ymrwymedig i sicrhau y caiff ei holl wirfoddolwr eu trin yn gyfartal a chyda pharch a thegwch, beth bynnag fo'u hoedran; anabledd; ffydd neu gredoau crefyddol; rhywedd; hunaniaeth neu fynegiant rhywedd; cenedligrwydd neu gefndir diwylliannol; niwroamrywiaeth; gallu corfforol; edrychiad neu faint y corff; hil; hunaniaeth neu gyfeiriadedd rhywiol; a/neu statws economaidd-gymdeithasol.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu ei bod yn <u>rhaid</u> i bob gwirfoddolwr wneud y canlynol:

- Osgoi unrhyw iaith y gellid dehongli ei bod yn hiliol, yn dangos casineb at fenywod neu at ddynion, neu'n derm dirmygus arall
- Osgoi gweithredu mewn ffordd y gellid ei dehongli fel aflonyddu
- Osgoi gweithredu mewn ffordd sy'n tarfu, neu a allai effeithio ar y gallu i reoli'r digwyddiad neu'r gweithgaredd
- Peidio â rhoi sylw digroeso nac annymunol o unrhyw fath i neb
- Osgoi defnyddio iaith sy'n gwrthrycholi unrhyw wirfoddolwr arall neu aelod o staff Heneb neu sefydliad partner mewn ffordd amlwg neu rywiol
- Tarfu'n gyson ar ofod personol gwirfoddolwr arall neu aelod o staff Heneb neu sefydliad partner

d. <u>Cyfathrebu: ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy 'r cyfryngau cymdeithasol</u>

Mae Heneb yn sylweddoli ei bod yn bosibl y bydd gwirfoddolwyr yn dymuno cyfathrebu â'i gilydd drwy sianeli amrywiol. Felly, nod yr adran hon o'r Cod yw gosod safon y bydd yn rhaid i bob gwirfoddolwr lynu wrthi wrth gyfathrebu â staff Heneb neu wirfoddolwyr eraill.

<u>Gofynion Mewnol:</u>

- Rhaid i unrhyw gyfathrebu a wneir, boed ar lafar neu'n ysgrifenedig (gan gynnwys drwy negeseuon testun, negeseuon e-bost neu sianeli cyfryngau cymdeithasol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) fod yn sifil.
- Ni chaniateir cyfathrebu gan ddefnyddio iaith y gellid dehongli ei bod yn hiliol, yn dangos casineb at fenywod neu at ddynion neu'n ddirmygus ei natur fel arall.
- Rhaid i unrhyw gyfathrebu fod yn angenrheidiol ac ni chaniateir cyfathrebu gormodol. Ni dderbynnir cyfathrebu parhaus, ar ffurf negeseuon e-bost, negeseuon testun ac ati, ynghylch mater yr ystyrir ei fod wedi'i ddatrys.
- Ni fydd staff Heneb yn 'dilyn' gwirfoddolwyr ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol personol, ac eithrio pan fydd aelod o staff yn aelod o deulu'r gwirfoddolwr neu'n ei adnabod cyn ei rôl wirfoddoli.
- Ni ddylai gwirfoddolwyr ofyn am fanylion cyfrifon personol staff Heneb ar y cyfryngau cymdeithasol, ac eithrio pan fydd yr aelod o staff eisoes yn aelod o'u teulu/cylch cymdeithasol cyn iddynt wirfoddoli.

e. Cydymffurfiaeth Gyfreithiol a Thechnolegau Cyfrifiadura

Mae Heneb yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â defnyddio technolegau symudol a chyfrifiadura. Yn yr un modd, mae'n ofynnol i wirfoddolwyr sicrhau eu bod yn glynu wrth y cyfreithiau hyn bob amser wrth ddefnyddio technolegau o'r fath tra byddant yn cyflawni eu rôl gyda Heneb.

Os bydd Heneb yn amau bod gwirfoddolwr yn defnyddio technoleg symudol neu gyfrifiadura a roddwyd iddo fel rhan o'i rôl mewn ffordd sy'n mynd yn groes i gyfreithiau Cymru a Lloegr, caiff gweithgarwch o'r fath ei atgyfeirio at dîm rheoli Heneb yn y lle cyntaf.

Pe bai'r camddefnydd o natur ddifrifol, ceidw Heneb yr hawl i roi gwybod i'r awdurdodau statudol.

**Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth:**

**Ni chaniateir** i wirfoddolwyr wneud y canlynol:

- Defnyddio unrhyw un o dechnolegau symudol neu gyfrifiadura Heneb i dynnu neu ddosbarthu lluniau o natur rywiol neu eithafol.
- Defnyddio unrhyw un o dechnolegau symudol neu gyfrifiadura Heneb i recordio unrhyw berson oni bai bod y recordio'n rhan o ddigwyddiad ac yn cael ei oruchwylio gan aelodau awdurdodedig o staff Heneb neu sefydliad partner.
- Defnyddio technoleg symudol neu gyfrifiadura Heneb i weld, creu a/neu ddosbarthu unrhyw ddeunydd o natur rywiol neu eithafol.
- Defnyddio eu technoleg symudol neu gyfrifiadura eu hunain i arddangos unrhyw ddeunydd o natur rywiol neu eithafol mewn unrhyw ddigwyddiad neu weithgaredd a gynhelir gan Heneb.

**SYLWER: BYDD UNRHYW YMGAIS I DDANGOS DEUNYDD O NATUR RYWIOL NEU EITHAFOL YN GYHOEDDUS I WIRFODDOLWYR ERAILL NEU AELODAU O STAFF YN GOLYGU Y CAIFF Y GWIRFODDOLWR EI DDISWYDDO A'I ATGYFEIRIO AT YR AWDURDODAU STATUDOL.**

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, gweler Deddf Rheoli Arddangosiadau Anweddus 1981 yma, y Ddeddf Cyfathrebiadau yma a'r deddfau ynglŷn a deunydd eithafol yma.

f. Cyfyngiadau ar Ddarpariaeth Heneb

Mae Heneb yn cydnabod bod amser ac ymroddiad gwirfoddolwyr yn ychwanegu llawer o werth at ein sefydliad. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar y rolau, ac ar y cymorth y gall Heneb ei gynnig. Nodwn isod rai o'n cyfrifoldebau a'r cyfyngiadau arnynt:

Bydd Heneb yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod pawb sy'n gwirfoddoli gyda ni yn cael sesiwn sefydlu, lle y caiff eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hesbonio

- Lle bo angen, darparu hyfforddiant ar unrhyw agweddau technegol ar rôl y gwirfoddolwr yn ogystal â chyfarpar diogelu personol priodol
- Sicrhau iechyd a diogelwch pob gwirfoddolwr cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, boed yn ystod digwyddiad neu weithgaredd neu yn swyddfeydd Heneb
- Sicrhau na fydd yr un gwirfoddolwr yn dioddef gwahaniaethu nac aflonyddu ar sail unrhyw nodwedd a nodir yn (c.) uchod
- Sicrhau y bydd y Tîm Diogelu yn ymchwilio'n gyflym ac yn deg i unrhyw faterion neu bryderon a godir gan wirfoddolwyr

Ni fydd Heneb yn gwneud y canlynol:

- Gwahaniaethu yn erbyn unrhyw wirfoddolwr ar sail y nodweddion a nodir yn (c.) uchod nac am godi materion neu bryderon â'r Tîm Diogelu
- Ei gwneud yn ofynnol i unrhyw wirfoddolwr ymgymryd â rôl nad yw wedi cael ei hyfforddi ar ei chyfer neu nad oes ganddo'r cyfarpar diogelu personol priodol ar ei chyfer
- Darparu cludiant yn ôl ac ymlaen i ddigwyddiad neu weithgaredd yng ngherbydau'r cwmni. Cafeat: os bydd natur y digwyddiad neu'r gweithgaredd yn golygu bod angen cludiant (e.e. bws) bydd Heneb yn cynghori gwirfoddolwyr yn unol â hynny. Lle y darperir cludiant o'r fath, rhaid i wirfoddolwyr lynu wrth y pwyntiau o dan (c.) uchod

## 6. Achosion o Dorri'r Cod Ymddygiad: Sancsiynau ac Apeliadau

Bwriedir i'r Cod Ymddygiad hwn amddiffyn nid yn unig gwirfoddolwyr ond staff Heneb a sefydliadau partner hefyd. I wneud hynny, mae Heneb yn annog gwirfoddolwyr a staff i fod yn 'wylwyr gweithredol' ac i dynnu sylw pobl at achosion lle na wnaethant lynu wrth y Cod, pan fydd yn ddiogel iddynt wneud hynny.

Fodd bynnag, ni fydd hyn yn bosibl bob amser.  Felly, anogir gwirfoddolwyr a staff i roi gwybod i'r Tîm Diogelu am unrhyw bryderon cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Os bydd y gwirfoddolwr o'r farn bod perygl uniongyrchol i berson neu bersonau, bydd yn **rhaid** iddo gysylltu â staff Heneb sy'n cynnal y digwyddiad neu'r gweithgaredd ac, os bydd angen, dylai gysylltu â'r gwasanaethau brys.

Sancsiynau

Os na fydd gwirfoddolwyr yn glynu wrth y Cod hwn, neu os bydd digwyddiad/pryder y rhoddwyd gwybod amdano wedi bod yn destun ymchwiliad ac wedi cael ei gadarnhau, gall hyn arwain at gyfyngu ar rôl gwirfoddolwr yn Heneb, neu ei therfynu.

Os bydd pryder wedi cael ei godi, bydd y Tîm Diogelu fel arfer yn trafod hyn gyda'r gwirfoddolwr/gwirfoddolwyr dan sylw, er mwyn gweld a ellir datrys hyn heb fod angen diswyddo unrhyw wirfoddolwr.  Gall y penderfyniad fod ar un o'r ffurfiau canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

- Cyfyngu i fathau penodol o weithgaredd/digwyddiad gwirfoddol neu gyhoeddus

Heneb

- Mewn achosion lle y bu 'gwrthdaro rhwng cymeriadau', atal y gwirfoddolwyr rhag mynd i'r un gweithgareddau/digwyddiadau
- Goruchwylio'r gwirfoddolwr dros gyfnod penodol er mwyn gweld a yw'r ymddygiad digroeso wedi dod i ben/wedi digwydd eto

Mae'n bosibl y caiff rolau gwirfoddolwyr eu terfynu os bydd y canlynol yn digwydd:

- Os bydd eu hymddygiad yn peryglu eu bywydau eu hunain neu fywydau gwirfoddolwyr eraill a staff.
- Os bydd eu hymddygiad yn mynd yn groes i gyfreithiau Cymru a Lloegr.
- Os na fyddant yn datgan unrhyw gyflwr meddygol neu gorfforol neu gyfyngiad arall sy'n effeithio ar eu gallu i gyflawni'r rôl, neu a all effeithio ar ddiogelwch gwirfoddolwyr eraill, staff neu aelodau o'r cyhoedd.
- Os na fyddant yn addasu eu hymddygiad ar ôl cyfnod o oruchwyliaeth agos.
- Os byddant yn mynd yn groes i ofynion y Cod Ymddygiad ar gyfer Gwirfoddolwyr neu bolisïau a gweithdrefnau eraill Heneb sy'n gysylltiedig â'u rôl.

Apeliadau

Os caiff rôl gwirfoddolwr ei therfynu, bydd ganddo hawl i apelio i'r Prif Swyddog Gweithredol a fydd yn adolygu'r penderfyniad.

## 7. Sut i roi Gwybod am Ddigwyddiad yn unol â'r Cod

**I roi gwybod am bryder ar lafar:**

| **Yn ystod oriau swyddfa:** | |
|---|---|
| Ffoniwch yr Arweinydd Diogelu Dynodedig | 01248 366970 / 07741 292 802 |
| Neu'r Dirprwy Arweinydd Diogelu | *01639 50170.* |
| **Y Tu Allan i Oriau** | |
| Arweinydd Diogelu Dynodedig | 07741 292 802 |
| Dirprwy Arweinydd Diogelu | *01639 501703* |

**I roi gwybod am bryder yn ysgrifenedig**, e-bostiwch safeguarding@heneb.org.uk.

Bydd y Tîm Diogelu yn rhoi ymateb cychwynnol o fewn dau ddiwrnod gwaith i adroddiad ysgrifenedig; byddwn wedyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r sawl a roddodd wybod yn rheolaidd.

Os caiff y Tîm Diogelu wybod am bryderon, caiff y mater ei drosglwyddo i'r ADD neu ei Ddirprwy yn y lle cyntaf. Bydd wedyn yn dilyn y matrics ymchwilio fel y'i nodir yn y Polisi Diogelu. Mae ein Polisi Diogelu ar gael ar ein gwefan; fel arall, gall gwirfoddolwyr ofyn am gopi ysgrifenedig drwy gysylltu â safeguarding@heneb.org.uk.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Gwirfoddolwyr neu bolisïau a gweithdrefnau diogelu Heneb, cysylltwch â'r Tîm Diogelu yn y lle cyntaf.

**Datganiad**

Gofynnwn yn garedig i chwi lenwi'r Datganiad drosodd a'i ddychwelyd i ni yn y dulliau a nodir ar waelod y ffurflen.

**DATGANIAD / DECLARATION**

Trwy arwyddo'r datganiad yma, rwyf yn cadarnhau fy mod wedi darllen y Cod Ymddygiad ar Gyfer Gwirfoddolwyr ac yn deall a derbyn y telerau ynddo.  Rwyf hefyd yn deall fod rhaid i mi gadw at y telerau wrth fynychu unrhyw weithgaredd Heneb, boed yn ddigidol neu'n wyneb yn wyneb. Rwyf hefyd yn cadarnhau fy mod yn ymwybodol o'r sancsiynau y gellir eu rhoi i bobl am beidio â glynu wrth y telerau, sydd wedi'u hesbonio yn Adran 5 o'r cod llawn.

| | |
|---|---|
| Enw Llawn (Bras Llythrennau): | |

| | |
|---|---|
| Llofnod: | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | |

| | |
|---|---|
| Rhanbarth: | |

Ar ôl cwblhau'r datganiad yma, dychwelwch i'r Tîm Diogelu ar y cyfeiriadau isod.

Ffurf Digidol safeguarding@heneb.org.uk
Ar bapur: Y Tîm Diogelu, Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru, Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd, LL57 2RT.